CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 9

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Eluned Morgan AS,
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS,
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Lynne Neagle AS,
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Dyddiad 27 Hydref

Pwnc: Gwybodaeth ddilynol i’r sesiwn dystiolaeth ar 7 Hydref

Annwyl Eluned, Julie a Lynne

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 7 Hydref. Yn dilyn y sesiwn hon, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am rai meysydd. Rwyf hefyd wedi amlinellu'r wybodaeth y gwnaethoch gytuno i'w darparu yn ystod y sesiwn.

Strategaeth Iechyd Plant

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, pan ofynnwyd a oedd unrhyw gynlluniau i gyhoeddi Strategaeth Iechyd Plant, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod hyn yn annhebygol, yn rhannol oherwydd, pe bai yn cychwyn ar y llwybr hwnnw y byddai eisiau strategaeth ar gyfer pob adran o gymdeithas. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl hon. Oherwydd y gall anghenion iechyd plant a phobl ifanc fod yn eithaf gwahanol i anghenion iechyd oedolion credwn fod dadl glir dros gael Strategaeth Iechyd Plant. Mae peidio â chael cynllun iechyd plant yn gwneud craffu ar Lywodraeth Cymru yn fwy heriol i'r Senedd, i randdeiliaid ac i'r cyhoedd.

Rydym wedi ystyried eich ymateb i ni yng nghyd-destun dyletswyddau Gweinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae’n cyfeirio at hawliau’r plentyn “i fwynhau’r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd ac i gael cyfleusterau ar gyfer trin afiechyd ac adfer i iechyd”.

Credwn felly y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad o ran cynllun iechyd plant. Gofynnwn ichi ddarparu copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn o ran y penderfyniad hwn. Bydd hwn yn ein galluogi ni i ystyried ymhellach a yw diffyg cynllun penodol ar gyfer plant yn cydymffurfio â'ch dyletswyddau o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Pwysau Iach, Cymru Iach

Effeithiodd y pandemig COVID-19 yn sylweddol ar weithredu'r ymrwymiadau a nodwyd yn y cynllun cyflawni *Pwysau Iach Cymru Iach*, a chanlyniad hynny oedd oedi o ran cyflawniadau 2020. Yn ystod y sesiwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y bydd 'ffocws o'r newydd' ar y rhaglen hon. A allwch chi gadarnhau fod y rhaglen yn ôl ar y trywydd iawn ac y bydd y cynigion a nodir yn y cynllun cyflawni diwygiedig ar gyfer 2021-22, a thu hwnt, yn cael eu cyflawni?

Gwasanaeth Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol (Uned Mamau a'u Babanod)

Er ein bod yn croesawu agoriad yr Uned Mamau a'u Babanod dros dro, sef 'Uned Gobaith' ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, rydym yn ymwybodol mai dim ond 'datrysiad dros dro' yw hwn o hyd. A allwch chi ddarparu eglurder ar y cynlluniau ar gyfer uned fwy parhaol? Rydym hefyd yn bryderus iawn bod angen i fenywod a babanod yng Ngogledd Cymru deithio pellteroedd sylweddol o hyd i gael cymorth arbenigol ar gyfer cleifion mewnol. Nodwn y datganiad gan y Dirprwy Weinidog a oedd yn dweud bod gwaith yn parhau i sicrhau bod darpariaeth ar gael i famau sy'n byw yng Ngogledd Cymru. A allwch chi roi rhagor o fanylion inni am yr opsiynau a'r amserlen ar gyfer hyn?

Y rhai sy'n gadael gofal

A all y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth lafar a roddwyd inni am drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch sicrhau bod llety digonol a chynaliadwy ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal?

Cyfiawnder Ieuenctid

Yn ystod y sesiwn, gwnaethom holi am y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyfiawnder ieuenctid. Roeddem yn siomedig mai'r ymateb oedd bod hwn yn bennaf yn faes i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, pan ddylai hwn fod yn gyfrifoldeb a rennir ar draws portffolios y Gweinidogion. Rydyn ni o'r farn ei bod yn bwysig bod dull traws-lywodraethol o weithredu o ran y mater hwn, yn unol ag egwyddorion y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig oherwydd:

- mae'n faes lle mae llawer o wasanaethau cyhoeddus datganoledig â rolau hanfodol a chydnaws â'i gilydd, a
- gall y plant a'r bobl ifanc sydd â chysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid fod yn rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ac felly maent yn agored yn

anghymesur i amrywiaeth o anfanteision eraill sy'n dod o fewn eich portffolios chi a llawer o Weinidogion eraill.

Cyllidebau Iechyd Meddwl

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y byddai dull gwahanol o gynllunio o ran y gyllideb eleni. A allwch egluro a fydd hyn yn arwain at newidiadau yn y modd y cyflwynir y gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gyllideb?

Tŷ Llidiard

Oherwydd y pryderon parhaus am yr Uned, hoffem ofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar unrhyw faterion yn yr Uned, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gwybodaeth ychwanegol y cytunasoch i'w darparu

Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch gytuno i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- Pob un o adroddiadau trylwyr y Byrddau Iechyd a luniwyd gan y Grŵp Llywio Gwasanaethau Hanfodol ar feysydd penodol, i nodi i ba raddau yr oedd gwasanaethau hanfodol wedi'u cynnal yn ystod y pandemig;
- nodyn sy'n cynnwys data ar nifer y rhai sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglenni brechu amrywiol ar gyfer plant a phobl ifanc; a
- rhoi rhagor o fanylion am y cynnydd a wneir i wella iechyd plant ar draws amrywiaeth o broblemau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys gordewdra mewn plant, iechyd deintyddol ataliol, ysmygu ymysg pobl ifanc, ffitrwydd corfforol a defnyddio cyffuriau yn anghyfreithlon.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.